



## DATGANIAD POLISI – CHWEFROR 2019

Daeth tro ar fyd yn siroedd Dyfed yn ystod y genhedlaeth ddiwethaf. Diolch yn bennaf i ymdrechion yr hen Gyngor Sir Dyfed ac, ers hynny, Cyngor Sir Gâr a Cheredigion, daeth y Gymraeg yn gyfrwng naturiol addysg yn y mwyafrif o'n hysgolion - yn enwedig y rhai gwledig. Y perygl yn awr yw i lawer ddechrau ystyried y Gymraeg yn iaith addysg ffurfiol yn hytrach nag yn iaith bywyd bob dydd a'r gweithgareddau y maen nhw'n eu mwynhau.

Eleni felly mae Cymdeithas yr Iaith yn Sir Gâr yn dathlu Gŵyl Dewi trwy lansio ymgyrch "Cymraeg - iaith Hamdden Sir Gâr" gyda'r nod o hybu symudiad at sefyllfa lle bydd y Gymraeg yn brif iaith gweithgareddau hamdden y sir, a gobeithio bydd cefnogwyr yng Ngheredigion a siroedd eraill yn dilyn hyn. Mae mudiadau fel y Ffermwyr Ifainc, y Mentrau Iaith a'r Urdd eisoes yn trefnu ystod eang o weithgareddau naturiol yn Gymraeg, a'r nod yn awr fydd i droi'r gweithgareddau prif ffrwd yn Gymraeg. Yn union fel y mae pob ysgol yn Sir Gâr ar gontinwwm tuag at addysg Gymraeg, y nod fydd hyrwyddo gweithgareddau hamdden i fod ar gontinwwm tuag at fod yn Gymraeg.

Er mwyn cyflawni hyn

1) **Galwn ar Gyngor Sir Caerfyrddin** i anelu at wneud y Gymraeg yn brif iaith gweithgareddau hamdden o dan eu cyfrifoldeb

a) Trwy ddatblygu'r gwaith i wneud y Gymraeg yn brif iaith eu Canolfannau Hamdden. Yn ddiweddar y mae'r Cyngor Sir wedi gwneud cynnydd enfawr yn y maes hwn trwy geisio sicrhau fod staff gweinyddol yn medru'r Gymraeg, sicrhau cerddoriaeth Gymraeg yn y canolfannau, bod cyfundrefn o "arweinwyr iaith" ym mhob canolfan a thrwy ymdrechu i gynnig gwersi nofio ar bob lefel trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hefyd pob cymorth i staff ddysgu Cymraeg. Cred y Gymdeithas nad oes unrhyw reswm pam na ddylai'r holl weithgareddau hamdden i ieuentid gael eu cynnal trwy gyfrwng y Gymraeg fel norm gan fod pob plentyn ysgol yn derbyn o leiaf gyfran o'i addysg yn Gymraeg ac yn gallu dilyn cyfarwyddiadau syml. Byddai gosod targed o weithio tuag at wneud y Gymraeg yn brif iaith Hamdden yn hybu uwchraddio sgiliau ieithyddol staff a hyfforddwyr fel y gallen nhw arwain y sesiynau. **Ar hyn o bryd, y strategaeth yw celsio "cynnig cyfleon" Gymraeg - y datblygiad**

**fydd gwneud y Gymraeg yn norm fel prif iaith Hamdden, yn hytrach na gorfod gwneud cais am weithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg.**

b) Trwy symud ar frys i wneud y Gymraeg yn gyfrwng dysgu Chwaraeon yn ysgolion Saesneg eu cyfrwng. Dyma ddull syml o feithrin sgiliau plant yr ysgolion hyn i allu defnyddio eu Cymraeg yn hytrach na'i weld fel pwnc academiaidd yn unig. O osod amserlen rhesymol i'r datblygiad hwn, mater cymharol fach fyddai trefnu cyrsiau iaith penodol i faes Hamdden i sicrhau fod yr athrawon presennol yn gallu arwain y gwersi Chwaraeon.

c) Trwy osod esiampl i gyrff gwirfoddol a defnyddio swyddogaeth y Cyngor wrth ddsbarthu grantiau "Cist Gymunedol" y Cyngor Chwaraeon i ddylanwadu ar glybiau cymunedol i ddefnyddio'r Gymraeg

ch) Trwy drefnu gyda Choleg Sir Gâr yn lleol a galw ar Gyrff Chwaraeon Cenedlaethol, i sicrhau fod cyrsiau Cymraeg i hyfforddwy'r sy'n cynnwys y gallu i hyfforddi'n Gymraeg, ac annog disgyblion uwchradd i ystyried gyrfa ym maes chwaraeon a hamdden.

d) Trwy sicrhau fod gweithgareddau "ochr sych" rhaglen "Actif" yn dod yn drwyadl Gymraeg. Sicrhaudd y Cyngor fod pob cyhoeddiad a chyhoeddusrwydd yn ddwyieithog. Dylid symud ymlaen yn awr i sicrhau fod yr hyfforddiant ei hun yn Gymraeg.

dd) Trwy wneud y Gymraeg yn brif iaith y Pentre Hamdden a Llesiant newydd yn Llanelli.

2) Anogwn Glybiau Cymunedol gwirfoddol i wneud y Gymraeg yn brif gyfrwng eu gweithgareddau - o ran iaith hyfforddiant, cyhoeddusrwydd a gweinyddiaeth. Mae Clwb Rygbi Castell Newydd Emllyn - lle caiff yr ymgyrch ei lansio - yn gosod esiampl dda yn y maes hwn. Mae mwyafrif enfawr y glybiau cymunedol yn Sir Gâr sydd wedi derbyn grantiau o'r Gist Gymunedol wedi eu lleoli yn yr ardaloedd trefol yn ne'r sir a'r mwyafrif yn cynnal eu gweithgareddau'n Saesneg. Gobeithiwn y bydd newid o'r gwaelod i fyny.

3) Anogwn diwtoriaid preifat ym meysydd fel jiwdo, karate, gymnasteg, cadw'n heini i wneud y Gymraeg yn brif gyfrwng eu gwersi - yn enwedig pan fyddan nhw'n cael eu hanelu at blant. Ar hyn o bryd y mae hyd yn oed hyfforddwy'r Cymraeg eu hiaith yn tueddu i droi at y Saesneg os bydd unrhyw blant neu bobl o aelwyd Saesneg yn bresennol. Nid oes angen i hyn ddigwydd, yn enwedig yn achos plant, gan fod pob plentyn yn dysgu Cymraeg o leiaf at safon elfennol i ddilyn cyfarwyddiadau mewn gwersi chwaraeon. Galwn ar ddarparwyr lleol a chyrrff chwaraeon cenedlaethol i ddarparu cyrsiau hyfforddiant Cymraeg. Galwn ar bwyllgorau neuaddau cymunedol, lle cynhelir y gweithgareddau, i ofyn am eu cynnal yn Gymraeg wrth iddynt logi eu cyfleusterau.

**Ar hyn o bryd cynhleir gweithgareddau hamdden mewn glybiau cymunedol a chan glybiau preifat yn Gymraeg trwy hap a damwain yn unig - yn ddibynnol ar agwedd swyddogion a hyfforddwy'r unigol. Mae angen trefnu symudiad i wneud y Gymraeg yn brif iaith Hamdden y Sir**

Rhanbarth Sir Gâr Cymdeithas yr Iaith

Chwefror 2019